




PROSIECT YMHOLI PROFFESIYNOL CENEDLAETHOL

Adroddiad Terfynol Ysgol Gynradd Aberteifi 2019-2020

Cefndir yr ysgol

- ▶ Derbynnir y plant i addysg ran-amser yn yr ysgol y tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd, ac yna yn llawn amser y tymor sydd yn dilyn eu pedwerydd pen-blwydd.
- ▶ Ar hyn o bryd (Medi 2020) mae gan Ysgol Gynradd Aberteifi 432 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae 204 o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen (40 rhan amser) ac mae 228 disgybl yng Nghyfnod Allweddol 2 (Bechgyn -206 ; Merched-226).
- ▶ Mae 29% (126 disgybl) yn derbyn cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.
- ▶ Mae 38% o'r disgyblion yn byw mewn cartrefi lle mae o leiaf un o'r rhieni yn siarad Cymraeg yn rhugl.
- ▶ Mae 17.2% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg adref.
- ▶ PYD - Mae canran PYD yr ysgol (22%) yn gyson tua dwbl cyfartaleddau Ceredigion a hefyd yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Cwestiwn Ymholi

*Sut mae profiadau dilys a diddorol yn y
‘Celfyddydau Mynegiannol’ (celf,
drama, cerddoriaeth, ffilm a chyfryngau
digidol) yn gwella sgiliau llafar
disgyblion?*

Methodoleg

- ▶ Sefydlwyd CDP (Cymuned Dysgu Proffesiynol) mewnol gyda'r bwriad o ddatblygu maes dysgu'r Celfyddydau Mynegiannol ar draws yr Ysgol gyda'r pwyslais ar wella sgiliau llafar disgyblion.
- ▶ Lluniwyd holiadur i gasglu barn y disgyblion am y cyfleoedd yr oeddent yn derbyn ar y pryd o fewn disgyblaethau Celfyddydau Mynegiannol yn ogystal â'u teimladau ynglyn â siarad â'u gallu i fedru cyflwyno gwybodaeth, rhannu syniadau a dweud eu barn.
- ▶ Lluniwyd holiadur staff er mwyn adnabod anghenion hyfforddiant yr athrawon o fewn y pum disgyblaeth.

Celfyddydau Mynegiannol

* Required

1. Ym mha flwyddyn ydych chi? *

☐ 3
☐ 4
☐ 5
☐ 6

2. Ydych chi'n cael digon o gyfleoedd yn *

Cerdd	Llawer	Weithiau	Dim o gwbl
Celf	☐	☐	☐
Dawns	☐	☐	☐
Drama	☐	☐	☐

4. Ydych chi'n cael cyfie i edrych ar: *

	Ydw, yn aml	Ydw	Nac ydw
walrh artistiaid lleol?	☐	☐	☐
walrh artistiaid adnabyddus eraill?	☐	☐	☐
gerfluniau?	☐	☐	☐

5. Ydych chi wedi gweithio gydag artist: *

	Ydw	Nac ydw
yn yr ysgol?	☐	☐
tu allan i'r ysgol?	☐	☐

6. Cerdd

Ydych chi wedi cael cyfie i: *

	Ydw, llawer iawn.	Ydw	Nac ydw
berfformio o flaen cynulleidfya yn yr ysgol?	☐	☐	☐
berfformio o flaen cynulleidfya tu allan i'r ysgol?	☐	☐	☐
gyfansoddi can / alaw?	☐	☐	☐
weithio gyda cherddor?	☐	☐	☐
gael gwrsi offerynnol?	☐	☐	☐

Canfyddiadau

Staff:

Staff yn hyderus mewn disgyblaethau gwahanol - cryfderau staff yn gorwedd mewn gwahanol ddisgyblaethau o fewn y Celfyddydau Mynegiannol.

Angen uwch-sgilio staff yn ôl angenion penodol yr athrawon. Tipyn o her o ystyried natur eang y disgyblaethau.

Angen uwchsgilio staff i ddatblygu sgiliau llafar disgyblion drwy'r Celfyddydau Mynegiannol.

Angen creu pecyn o hyfforddiant a oedd wedi ei deilwra'n arbennig i dargedu anghenion dysgu proffesiynol penodol staff yr ysgol.

Disgyblion:

Dangosodd ddadansoddiad yr holiadur disgyblion fod ffocws y prosiect yn rhy eang, gan fod gweithio gyda a mesur effaith pum disgyblaeth yn tipyn o her!

Mae angen canolbwyntio ar un disgyblaeth o fewn y Celfyddydau Mynegiannol er mwyn gwella sgiliau llafar disgyblion (drama).

Beth weithiodd yn dda?/ Pa agweddau oedd fwyaf defnyddiol?

- ▶ Defnyddio CDP mewnol fel arf effeithiol ar gyfer gyrru gwelliant ar draws yr ysgol (Mae 1 aelod o staff o bo adran yn aelod o'r CDP yma er mwyn datblygu sgiliau arweiniol pob aelod o staff ar bob lefel).
- ▶ Sicrhau cyfleoedd i staff ar bob lefel ar draws yr ysgol i gynnal gwaith ymchwil.
- ▶ Adeiladu ar y berthynas dda mae'r ysgol wedi ei feithrin gyda Theatr Byd Bychan tref Aberteifi er mwyn creu pecyn sydd wedi ei deilwra'n arbennig ar gyfer anghenion hyfforddiant staff dysgu'r ysgol.
- ▶ Trefnu hyfforddiant i'r staff yn seiliedig ar eu anghenion hyfforddi penodol.

Agweddau Heriol

Y prif ddarganfyddiadau o ran y cyfyngiadau oedd:

- ▶ Natur ein holiadur yn cynhyrchu data rhy agored ac felly yn cynhyrchu gormodedd o ddata. Dim ffocws penodol. Arweiniodd hyn at yr angen i fireinio'r cwestiwn ymholi.
- ▶ Prinder amser - roedd cwblhau'r holiadur gyda 390 o ddisgyblion yn llafurus. Efallai y dylem wedi ystyried cyfyngu'r grŵp ffocws. Ni gafwyd amser i barhau â'r holiaduron gan fod yr ysgol wedi gorfod cau yn annisgwyl oherwydd y cyfnod clo.
- ▶ Roedd rhai disgyblion wedi ymateb yn wael i'r holiadur - roedd yr holiadur braidd yn hir ac yn ailadroddus felly roedd y disgyblion yn colli ffocws.
- ▶ Mae natur ysgolion yn y gorffennol wedi disgwyl gweld effaith cyflym i strategaethau newydd sydd yn cael eu cyflwyno. Nid oedden ni fel ysgol wedi ystyried fod y gylched ymholi yn gallu cymryd tipyn o amser.

A fyddech yn argymell ymholi proffesiynol i'ch cydweithwyr?/ Pa gyngor fyddech chi yn ei gynnig i gyd-weithwyr sydd yn ystyried ymgymryd â phrosiect ymchwiliol?

- ▶ Mae ymholi proffesiynol yn arf effeithiol o ddatblygu sgiliau ymholi mewn staff, ac yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu fel sefydliad sy'n dysgu.
- ▶ Sicrhau bod y cwestiwn ymholi yn plethu gyda natur ac anghenion yr ysgol.
- ▶ Sicrhau bod y cwestiwn ymholi yn benodol - gall cwestiwn ymholi agored arwain at ormodedd o wybodaeth.
- ▶ Mae'r dull o ddefnyddio CDP mewnol yn arf effeithiol ar gyfer gyrru gwelliant ar draws ysgol.
- ▶ Angen deall nad yw'r broses yma yn un cyflym - er mwyn gwneud gwaith ymholi o werth mae angen buddsoddi amser yn y broses. Ni ellid disgwyl gweld canlyniadau na effeithiau cyflym.